# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 26 Chwefror 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Dewi Owens, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a/ac Eryl Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (HW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PMcG), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Rheolwr Prosiect Tim Ymlaen y Rhyl (PMcD), Swyddog Polisi Cynllunio (BB) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW).

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Paul Penlington i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Peter Owen a/ac Huw Williams

## 2 DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorwyr Bill Tasker, Jeanette Chamberlain-Jones, Ann Davies, Hugh Evans, Geraint Lloyd Williams, Rhys Hughes, Brian Blakeley a Raymond Bartley fuddiant personol yn yr eitem "Adborth o'r cyfarfod gyda Phwyllgor Gwaith Prifysgol Betsi Cadwaladr ar benderfyniadau "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid"" (Eitem Rhif 6 ar y Rhaglen).

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid ddiweddariad ar y "Sgandal Cig Ceffyl" i'r aelodau. Roedd gwybodaeth wedi ei hanfon at yr aelodau gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid a hefyd gan Reolwr Gwarchod y Cyhoedd.

Ar ôl trafodaeth gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, roedd Grŵp Adolygu i'w sefydlu. Roedd yr Amodau Cyfeirio ar gael i'r Aelodau eu hystyried. Roedd tri chyfarfod i'w cynnal, gyda phob cyfarfod yn trafod materion penodol. Ar ôl y tri chyfarfod, byddai adroddiad yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu er mwyn penderfynu pa benderfyniadau y dylid eu cyflwyno i'r Cabinet neu'r Cyngor.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd ar gyfer y cyfnod 19 Rhagfyr 2012 i 12 Chwefror 2013 wedi ei dosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod y rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 31 Ionawr a 5 Chwefror 2013.

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 31 Ionawr a 5 Chwefror 2013 fel cofnod cywir.*

## 6 ADBORTH O GYFARFOD Â PHWYLLGOR GWAITH PRIFYSGOL BETSI CADWALADR AR BENDERFYNIADAU "MAE GOFAL IECHYD YNG NGOGLEDD CYMRU YN NEWID"

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhoi adborth ar ôl cyfarfod a gynhaliwyd gyda Phwyllgor Gwaith Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 8 Chwefror 2013 a'r argymhellion yn codi o hynny.

Ar ôl cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2013, cytunwyd bod dirprwyaeth o 10 Aelod yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr Pwyllgor Gwaith PBC i ddelio â phryderonyn codi o benderfyniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 18 Ionawr 2013 mewn perthynas â chynigion "Mae Gofal Iechyd yn Nghogledd Cymru yn Newid". Yr aelodau a fynychodd oedd y Cynghorwyr Julian Thompson-Hill, Huw Williams, Alice Jones, Stuart Davies, Pat Jones, Jason McLellan, Peter Evans, Gwyneth Kensler, Bobby Feeley ac Arwel Roberts.

Agorodd y Cynghorydd Raymond Bartley y drafodaeth trwy esbonio i'r Aelodau ei fod yn un o dri Aelod a gynrychiolai Sir Ddinbych ar y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC). Yr Aelodau eraill oedd y Cynghorwyr Brian Blakeley ac Ann Davies. Roedd y Cynghorydd Bartley eisiau ei gwneud yn glir nad y CIC a gymerodd y penderfyniad i beidio â chyfeirio'r materion a adnabuwyd fel materion o bryder i'r Gweinidog, ond Pwyllgor Gwaith y CIC. Roedd y CIC yn cynnwys 72 aelod, a oedd yn gynrychiolwyr o bob un o chwe Chyngor Gogledd Cymru, ac yn cyfarfod bob

mis. Roedd Pwyllgor Gwaith y CIC yn cynnwys 15 aelod o'r CIC, gan gynnwys y chwe Chadeirydd a'r chwe Is-gadeirydd ynghyd â Chadeirydd ac Is-gadeirydd BIPBC a'r Prif Swyddog.

Esboniodd y Cynghorydd Bartley ei fod yn anghytuno'n gryf gyda'r bleidlais o ddiffyg hyder. Roedd angen parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd er budd gorau'r trigolion. Y bobl bwysicaf yn y Gwasanaeth Iechyd oedd y cleifion.

Parhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles i adrodd ar y diweddariad ar ôl y cyfarfod gyda chynrychiolwyr PBC ar 8 Chwefror, 2013. Mynychwyd y cyfarfod gan Mary Burrows, Prif Weithredwr BIPBC, Grace Lewis Parry, Cyfarwyddwr, Neil Bradshaw, Cyfarwyddwr, a Sally Baxter, Cyfarwyddwr Cynorthwyol. Rhoddwyd sicrhad gan gynrychiolwyr Pwyllgor Gweithredol PBC fel a ganlyn:-

- Dyfodol Ysbyty Glan Clwyd. Gan gynnwys cadarnhad ynglŷn â'i dyfodol fel canolfan ar gyfer llawfeddyginiaeth fasgwlaidd gymhleth. Roedd ystod o fuddsoddiadau cyfalaf (yn dod i ryw £100 miliwn) eisoes wedi eu sicrhau yn Ysgol Glan Clwyd, gan gynnwys buddsoddiadau mewn Damweiniau ac Argyfyngau, theatrau a labordai cathetreiddio. Cytunodd cynrychiolwyr PBC gynhyrchu dogfen math "glasbrint" yn esbonio'r hyn a gynlluniwyd i'w gyflwyno o safle Ysbyty Glan Clwyd yn y dyfodol.
- Cytundeb i weithio i ddatblygu cynllun trafnidiaeth
- Cytundeb i ymgymryd â modelu canlyniadau ariannol newidiadau GIG arfaethedig ar yr awdurdod lleol, yn enwedig Gwasanaethau Gofal Uwch a Gwasanaethau i Ofalwyr.
- Cytundeb i ddefnyddio Fforwm Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Sir i sicrhau dialog barhaus.

Yn ystod y cyfarfod, amddiffynnodd cynrychiolwyr PBC y penderfyniadau yn gryf, a oedd wedi eu cymryd oherwydd materion demograffig, heriau ariannol a phroblemau staff.

Roedd £27 miliwn o'r cyfanswm o £40 miliwn a oedd ei angen ledled Gogledd Cymru ar gyfer cyfleusterau iechyd cymunedol newydd i'w gwario yn Sir Ddinbych.

Esboniodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant bod BIPBC wedi rhoi sicrhad ar nifer o faterion. Yn anffodus, roedd materion o hyd lle'r oedd angen sicrhad. Bu argymhelliad cryf i alw ar y CIC i gyfeirio'r cynigion i'r Gweinidog. Ailadroddodd y Cynghorydd Feeley bod gweithio mewn partneriaeth â BIPBC yn hanfodol i wasanaethau Sir Ddinbych.

Ar y pwynt hwn, cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield, ar ran y Grŵp Llafur, gynnig o ddifyg hyder ym Mhwyllgor Gwaith y CIC oherwydd diffyg gweithredu amwys y CIC a'u safiad ar amrywiol agweddau sydd eto i'w hesbonio. Cyfeiriodd y Cynghorydd Butterfield at y datganiad a ryddhawyd gan y CIC fel un aneglur oherwydd ei fod yn gadael mwy o gwestiynau heb eu hateb nag a oedd wedi eu hateb. Trwy gydol y broses, cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd Lleol y byddai mesurau amgen yn eu lle cyn y rhaglen i gau. Roedd symud gwasanaethau gofal dwys

newydd-enedigol i Ysbyty Arrowe Park yn hytrach nag aros yn Ysbyty Glan Clwyd yn achos pryder difrifol.

Er cywirdeb, heriodd y Cadeirydd y datganiad “symud gofal newydd-enedigol yn Ysbyty Glan Clwyd”. Ar hyn o bryd mae Ysbyty Glan Clwyd yn rhedeg Uned Gofal Arbennig i Fabanod ac mae unrhyw fabanod sâl sydd angen gofal newydd-enedigol yn cael eu troslwyddo i Ysbyty Alder Hey i gael triniaeth. Nid oes gan Ysbyty Glan Clwyd uned babanod newydd-enedigol.

Dywedodd y Cynghorydd Joan Butterfield mai teimlad y cyhoedd oedd bod yr uned babanod newydd-enedigol i’w symud o Ogledd Cymru. Roedd y Grŵp Llafur yn adlewyrchu’r farn gyhoeddus.

Dywedodd y Cynghorydd Ann Davies, fel aelod o’r CIC bod angen iddi ailadrodd y gwaith da a oedd yn cael ei wneud gan aelodau’r CIC. Dywedodd y Cynghorydd Davies na fyddai’n cymeradwyo pleidlais o “ddiffyg hyder”.

Mynegodd nifer o aelodau bryder ynglŷn â’r methiant i gyfeirio’r cynigion i’r Gweinidog.

Ar ôl trafodaeth faith ac ar ôl cyngor a roddwyd i’r aelodau gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, cytunwyd newid y penderfyniad fel a ganlyn:-

“Os nad yw Pwyllgor Gwaith y CIC wedi cyfeirio’r materion hynny a adnabuwyd ganddynt fel materion o bryder i’r Gweinidog erbyn dydd Gwener 1af Mawrth, yna nid oes gan y Cyngor hwn opsiwn ond cyflwyno pleidlais o ddiffyg hyder ym Mhwyllgor Gwaith y CIC.”

Gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cafwyd pleidlais gofnodedig ac roedd cytundeb unfrydol o blaid y penderfyniad diwygiedig.

Cafwyd pleidlais hefyd ar yr argymhellion yn yr adroddiad, ac eithrio argymhelliad 3.4.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn unfrydol:-*

*(i) Yn cymeradwyo’r penderfyniad diwygiedig:*
*Os nad yw Pwyllgor Gwaith y CIC wedi cyfeirio’r materion hynny a adnabuwyd ganddynt fel materion o bryder i’r Gweinidog erbyn dydd Gwener 1af Mawrth, yna nid oes gan y Cyngor hwn opsiwn ond cyflwyno pleidlais o ddiffyg hyder ym Mhwyllgor Gwaith y CIC*

*(ii) Yn cydnabod y cynnydd a wnaed mewn perthynas â:-*
  - *a. Sicrhad ar ddyfodol Ysbyty Glan Clwyd*
  - *b. Cytundeb i weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynllun trafnidiaeth i liniaru effaith newidiadau arfaethedig y GIG ar y cyhoedd*

c. *Cytundeb i ymgymryd â gwaith modelu ar ganlyniadau ariannol newidiadau arfaethedig y GIG ar yr awdurdod lleol, yn enwedig Gwasanaethau Gofal Uwch a Gwasanaethau i Ofalwyr*
d. *Cytundeb i ddefnyddio Fforwm Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Sir fel mecanwaith i sicrhau dialog parhaus ac adrodd yn ôl, gan gynnwys ar y materion hynny a adnabuwyd ar gyfer gwaith pellach yn b ac c uchod*

*(iii) Yn mynegi ei bryderon mewn perthynas â system ariannu cyfalaf y GIG sy'n gadael cymunedau lleol heb warant y bydd gwasanaethau newydd a addawyd yn dod yn ffaith.*
*(iv) Yn cytuno ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd i atgyfnerthu'r angen am y penderfyniadau cynharaf ar ddyrannu cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynlluniau yn Sir Ddinbych.*
*(v) Yn galw ar y Gweinidog i ystyried pryderon Cyngor Sir Ddinbych cyn cadarnhau'r cynigion.*

## 7 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL GORLLEWIN Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn hysbysu'r Aelodau ynglŷn â'r ymatebion a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad ar nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl, ac yn amlinellu unrhyw newidiadau a gynigiwyd i'r ddogfen yn sgil hynny.

Roedd angen penderfyniad gan y Cyngor Llawn ar a ddylid mabwysiadu'n ffurfiol nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl er mwyn medru ei ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol yn y cyfnod cais cynllunio ac arwain adfywiad yr ardal. Roedd nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl wedi ei drafod gan y Pwyllgor Cynllunio ar 23 Ionawr 2013 ac roedd yr Aelodau wedi mynegi cefnogaeth i'r ddogfen.

Roedd y cyfnod ymgynghorol ar gyfer y Canllawiau yn rhedeg o 24 Hydref – 19 Rhagfyr 2012. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cafwyd 15 ymateb gyda rhai newidiadau a argymhellwyd i'r Canllawiau.

Nod Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl oedd darparu fframwaith cynllunio clir i symud ymlaen ag adfywio Gorllewin y Rhyl yn erbyn y rhain y gellid cymryd penderfyniadau cynllunio. Heb ganllawiau clir, roedd perygl y byddai diffyg agwedd holistig gyson tuag at gynigion datblygu yn ei gwneud yn anodd gwrthod ceisiadau cynllunio nad ydynt yn cyd-fynd â'r strategaeth a amlinellwyd ar gyfer Gorllewin y Rhyl. At hyn, gallai absenoldeb y ddogfen hon yn rhannol danseilio'r sylfaen tystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi gorchmynion prynu gorfodol a ystyrir yn fecanwaith allweddol o ran helpu adfywio Gorllewin y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau yn unfrydol yn cytuno mabwysiadu'n ffurfiol nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Gorllewin y Rhyl, i'w defnyddio fel ystyriaeth berthnasol yn y cyfnod cais cynllunio ac arwain adfywiad yr ardal.*

## 8 Y DRETH GYNGOR A MATERION CYSYLLTIEDIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r Cyngor gymryd penderfyniadau pellach ar ffurf benodol i sicrhau bod y Dreth Gyngor a'i materion cysylltiedig yn gyfreithiol ddilys.

Trefnwyd sesiynau cyllideb ar gyfer Gorffennaf, Hydref, Rhagfyr a Mawrth. Pwysleisiodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau i'r Aelodau bwysigrwydd y sesiynau ac anogodd gymaint o Aelodau ag y bo modd i fynychu.

Mynegodd y Cynghorwyr Julian Thompson-Hill a Hugh Evans eu diolch i'r Pennaeth Cyllid ac Asedau, y Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau a'u timau am yr holl waith caled a wnaed ganddynt.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn unfrydol yn cymeradwyo'r argymhellion canlynol:-*

*(i) Bod y Cyngor Sir fel yr Awdurdod Bilio wedi ystyried y praeseptau a dderbyniwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref a Chymuned a datgan lefelau'r Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/2014.*

*(ii) Bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14, yn unol ag adrannau 32 i 34 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a Rheoliadau (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2008 fel yn Atodiad A adran 3 yr adroddiad.*

*(iii) Bod y symiau a gyfrifiwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel yn Atodiad A adran 4 yr adroddiad.*

*(iv) Bod symiau'r Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau fel y dangosir yn Atodiad C i'r adroddiad.*

*(v) Bod lefel y gostyngiad ar gyfer Dosbarth A, B, ac C fel y rhagnodwyd dan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael ei osod ar sero ar gyfer blynyddoedd ariannol 2013/2014, 2014/2015, 2015/2016 a 2016/2017 sef tymor y Cyngor hwn gyda'r cafeat bod hyn yn ddibynnol ar ddim newid mewn Deddfwriaeth neu amodau lleol.*

## 9 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau'r adroddiad yn dangos sut byddai'r Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau yn y flwyddyn i ddod a hefyd yn gosod y polisïau o fewn y rhain yr oedd swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn gweithredu. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu effaith debygol y Cynllun Corfforaethol ar y Strategaeth hon ac ar Ddangosyddion Darbodus.

Roedd Cod Ymarfer ar Reoli'r Trysorlys Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ("Cod TM CIPFA") yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus bob blwyddyn.

Roedd yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol lle cytunwyd rhai newidiadau i'r adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn cymeradwyo:-*

- *Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2013/2014*
- *Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2013/2014*
- *Pennu Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2013/2014, 2014/2015 a 2015/2016*
- *Datganiad Darpariaeth Refeniw leiaf*
- *Defnyddio Buddsoddiad Penodedig ac Amhenodedig.*

## 10 PENODI AELODAU LLEYG AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / Swyddog Monitro yr adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) er mwyn i'r Cyngor llawn ystyried naill ai ailbenodi am un tymor pellach yn y swydd neu gyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ail-hysbysebu penodiad Aelod Annibynnol (Cyfetholedig) i'r Pwyllgor Safonau.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn cytuno ailbenodi Ms Margaret Medley fel Aelod Annibynnol (Cyfetholedig) y Pwyllgor Safonau am un tymor pellach yn y swydd.*

## 11 BLAENRAGLEN WAITH Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Flaenraglen Waith y Cyngor.

Cododd y Cynghorydd Bill Cowie y ffaith nad oedd ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar flaenraglen waith y Cyngor. Byddai'n cael ei roddi ar y rhaglen ar gyfer Ebrill i'w drafod ynghyd ag unrhyw enwebiad ac ym mis Mai ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

Awgrymodd y Cynghorydd Alice Jones y byddai cyflwyniad gan DEFRA yn ddefnyddiol gan eu bod yn delio ag iechyd anifeiliaid, trawsgydymffurfio a'r gallu i olrhain bwyd. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ychwanegu at gyfarfod anffurfiol y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Jones hefyd bod y Polisi Amaethyddol Cyffredin i'w gyflwyno yn y man a chan nad oedd llawer o ddealltwriaeth o'r pwnc hwn, argymhellodd ei fod yn cael ei ychwanegu at y flaenraglen waith. Cytunwyd y dylid ychwanegu hyn at gyfarfod anffurfiol y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Joan Butterfield nad oedd y Comisiynydd yr Heddlu yn mynychu cyfarfod y Cyngor yn y dyfodol ar y flaenraglen. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ychwanegu hyn at y flaenraglen waith.

***PENERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cydnabod Blaenraglen Waith y Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.05 p.m.**